# Safonau'r Iaith Gymraeg – Ceisiadau am Grantiau a Chymorth Ariannol

O dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011 mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â **5** Safon sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod er mwyn rhoi'r hawl i aelodau o'r cyhoedd ddewis p'un ai i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg wrth wneud cais am grant neu gymorth ariannol gan y Brifysgol.

## Grantiau/Cymorth Ariannol

Rhaid i unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol:

- fod ar gael yn Gymraeg
- ddatgan bod modd cyflwyno'r cais yn Gymraeg a bod ceisiadau yn Gymraeg yn cael eu trin yn yr un modd â cheisiadau yn Saesneg
- fod â'r un dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cymraeg a Saesneg
- fod â'r un amser targed ar gyfer ymateb i geisiadau Cymraeg a Saesneg.

Os byddwch yn derbyn cais sydd wedi'i gyflwyno yn Gymraeg a bod angen i chi gyfweld â'r ymgeisydd er mwyn gallu asesu'r cais fe ddylech chi:

- ofyn iddynt a fyddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad
- cynnal y cyfweliad yn Gymraeg os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg neu
- trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn galluogi iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad.

Os bydd cais wedi'i gyflwyno yn Gymraeg fe ddylech chi

- roi gwybod am eich penderfyniad am y cais yn Gymraeg.

**Templedi defnyddiol**

Datganiad ar gyfer ffurflen gais ar gyfer grant neu gymorth ariannol

*Mae croeso i chi gyflwyno'ch cais yn Gymraeg. Bydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn union yr un modd â chais a gyflwynwyd yn Saesneg.*

*You are welcome to submit your application in Welsh. Any application submitted in Welsh will be treated in the same way as applications submitted in English.*

Cymal i'w cynnwys mewn gwahoddiadau i gyfweliad pan fo cais wedi'i gyflwyno yn Gymraeg. (Neges uniaith Gymraeg fyddai hon).

*Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad. Er mwyn ein helpu ni i drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen, byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi gwybod a fyddai'n well gennych ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfweliad.*

*TICIWCH: Ar gyfer y cyfweliad hwn hoffwn ddefnyddio'r :*

*Gymraeg* ☐ *Saesneg* ☐